**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**Rheoliadau Pysgodfeydd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei osod ac i Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o offerynnau statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Cafodd Rheoliadau Pysgodfeydd (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") eu gosod gerbron Dau Dŷ'r Senedd ar 04 Rhagfyr 2018. Mae'r Rheoliadau i'w gweld yma:

https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments

## Crynodeb o’r Offeryn Statudol a’i Amcan

3. Amcan Rheoliadau 2019 yw gwneud y newidiadau mân a thechnegol sydd eu hangen i sicrhau bod cyfreithiau domestig sy'n rhoi rhai mesurau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, mesurau rheoli morol a mesurau cysylltiol ar waith, ac yn eu gorfodi, yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

4. Yn unol â'r amcan hwn, bydd Rheoliadau 2019 yn diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol a ganlyn:
   - Deddf Pysgodfeydd 1981 ("Deddf 1981").
   - Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009”)

## Darpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS

5. Mae Rheoliadau 2019 yn newid y darpariaethau canlynol yn Neddf 1981:

The Act is amended as follows.

1.(1) The Fisheries Act 1981 (b) is amended as follows.

(2) In section 2—

(a) in subsection (1), omit “Subject to subsection (2A) below”;

(b) omit subsection (2A);

(c) in subsection (3), for “subsections (1) and (2A)” substitute “subsection (1)”.

(3) In section 14(2), in the words before paragraph (a), for “sections 2(2A) and 3(5)” substitute “section 3(5)”.

(4) In section 30, insofar as it extends to England and Wales and Scotland—

(a) in the heading, for “Community rules” substitute “rules relating to sea fishing”;

(b) in subsection (1), in the words before paragraph (a), for "enforceable Community restrictions, and enforceable EU obligations," substitute " retained EU restrictions and retained EU obligations";

(c) in subsection (2), for "enforceable Community restriction or other" substitute "retained EU restriction or retained EU";

(d) in subsection (3), for the definition of "enforceable Community restriction" and "enforceable EU obligation" substitute—

""retained EU restriction" means a restriction that—

(a) was created or arose by or under the EU Treaties before exit day, and

(b) forms part of retained EU law,

as modified from time to time;".

(5) Omit section 31(3).

6. Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud diwygiadau ynghylch dyletswyddau Awdurdod y Diwydiant Pysgod Môr, corff y DU sy'n arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â Chymru, mewn cysylltiad â diwydiannau pysgod môr aelod-wladwriaethau, gyda Rhan III yn ymwneud â gorfodi cyfyngiadau neu ymrwymiadau'r UE o dan y CFP a Rhan IV yn ymwneud â chymorth ariannol ar gyfer ffermio pysgod, mewn cysylltiad â newidiadau technegol a gweithredol.

7. Mae Rheoliadau 2019 yn newid y darpariaethau canlynol yn Neddf 2009:

2.The Marine and Coastal Access Act 2009 (a)is amended as follows.

(1) In section 238—

(a) in subsection (2)(b), for "enforceable EU restrictions and enforceable EU obligations" substitute "retained EU restriction or retained EU obligation";

(b) in subsection (10)—

(i) omit the definitions of "enforceable EU obligation" and "enforceable EU restriction";

(ii) after the definition of "relevant British fishing boat" insert—

""retained EU restriction" means a restriction that—

(a) was created or arose by or under the EU Treaties before exit day, and

(b) forms part of retained EU law,

as modified from time to time;".

(2) In section 278)—

(a) in the definition of "the fisheries legislation", in paragraph (b), for "enforceable EU restrictions and enforceable EU obligations" substitute "retained EU restriction or retained EU obligation";

(b) for the definitions of "enforceable EU obligation" and "enforceable EU restriction" substitute—

""retained EU restriction" means a restriction that—

(a) was created or arose by or under the EU Treaties before exit day, and

(b) forms part of retained EU law,

as modified from time to time.".

8. Mae'r newidiadau i adrannau 238 a 278(6) o Ddeddf 2009 yn ymwneud â phwerau gorfodi Swyddogion Gorfodi Morol mewn cysylltiad â chyfyngiadau neu ymrwymiadau'r UE o dan y CFP, a rheolau ynghylch fforffedu pysgod neu gêr pysgod yn sgil euogfarniad am drosedd pysgota môr. Un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru yw penodi Swyddogion Gorfodi Morol yng Nghymru.

9. Mae Adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (DLlC) yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu ynghylch unrhyw bwnc ac eithrio'r rhai sydd wedi'u cadw'n benodol i Senedd y DU yn Atodlen 7A i DLlC. O ran rheoli pysgodfeydd, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd mewn cysylltiad â Chymru.

**Pam mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

10. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws Cymru a Lloegr sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Lesley Griffiths AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**

Rhagfyr 2018